# Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 6 Gorffennaf 2010

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch ffioedd dysgu myfyrwyr Erasmus o Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru. (WAQ56165)

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A fydd myfyrwyr Erasmus o Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru yn gorfod talu ffioedd dysgu ar gyfer y flwyddyn academaidd 2010/11. (WAQ56166)

***Rhoddwyd ateb ar 13 Gorffennaf 2010***

Yn dilyn y trafodaethau hynny, ysgrifennodd CCAUC i bob SAU yng Nghymru ar 22ain Ebrill yn nodi'r sefyllfa hon o ran myfyrwyr Erasmus ar gyfer y flwyddyn academaidd 2010/11. Rwy'n falch o nodi bod y Cyngor wedi dyrannu £1.2 miliwn i helpu i dalu costau hepgor ffioedd ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio yn sefydliadau AU yng Nghymru yn 2010/11.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai*

**Eleanor Burnham (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu safbwynt Llywodraeth Cynulliad Cymru ar geisiadau cynllunio ar gyfer unedau ffermio dwys "cynaeafu porfa" yng Nghymru. (WAQ56168)

***Rhoddwyd ateb ar 13 Gorffennaf 2010***

Nodir polisïau cynllunio Llywodraeth y Cynulliad o ran amaethyddiaeth a datblygu gwledig ym Mholisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 6.

Nid yw'n ofynnol i sawl math o ddatblygu amaethyddol gael caniatâd cynllunio gan yr awdurdod cynllunio lleol. Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (GPDO) yn rhoi caniatâd cyffredinol ar gyfer amrywiaeth o adeiladau a gweithrediadau amaethyddol. Mae'r hawl i godi, ehangu neu newid adeiladau o'r fath, ac ar gyfer cloddiadau a gweithrediadau peirianneg, ar gael i unedau amaethyddol sydd o leiaf 5 hectar o dan Ddosbarth A o GPDO. Mae hawliau cyfyngedig ar gael i unedau llai sydd ddim llai na 0.4 hectar o dan Dosbarth B o GPDO.

Yn gyffredinol, nid yw hawliau datblygu a ganiateir yn cynnwys adeiladau a ddefnyddir i gadw da byw, nac adeiladau cysylltiedig megis tanciau a lagynau slyri, pan fwriedir eu hadeiladu o fewn 400 metr i gwrtil 'adeilad a warchodir'. Mae'r term adeilad a warchodir yn cynnwys y rhan fwyaf o adeiladau preswyl (ac eithrio anheddau fferm) ac adeiladau parhaol eraill megis ysgolion, ysbytai a swyddfeydd sydd fel arfer yn cael eu defnyddio gan bobl.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu ysbyty newydd ar safle Bath House yn Aberteifi. (WAQ56164)

***Rhoddwyd ateb ar 07 Gorffennaf 2010***

Mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn parhau i gynnal trafodaethau ar brynu'r tir ar gyfer adeiladu'r cyfleuster iechyd newydd.

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y datblygiadau diweddaraf yn y Cynllun Gweithredu Demensia Cenedlaethol. (WAQ56169) W

***Rhoddwyd ateb ar 07 Gorffennaf 2010***

Fe'ch cyfeiriaf at fy natganiad ar 11 Mai 2010 ar ddemensia a'm hymrwymiadau a amlinellir ynddo.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig*

**Eleanor Burnham (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu safbwynt Llywodraeth Cynulliad Cymru ar unedau ffermio dwys "cynaeafu porfa" yng Nghymru. (WAQ56167)

***Rhoddwyd ateb ar 13 Gorffennaf 2010***

Rwy'n ymwybodol bod nifer fechan o unedau llaeth yn gweithredu system lle caiff gwartheg eu cadw dan do yn barhaol drwy gydol y flwyddyn a chaiff glaswelltir cysylltiedig ei reoli ar sail "cynaeafu porfa". Mae'r unedau hyn yn ymateb i rymoedd y farchnad drwy ddatblygu dulliau er mwyn sicrhau arbedion maint ac effeithlonrwydd. Nid yw unrhyw bolisi na menter benodol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn dylanwadu arnynt.

Un o argymhellion yr adroddiad diweddar gan y Grŵp Defnydd Tir a Newid yn yr Hinsawdd annibynnol yw "mynd ati gyda'r diwydiant llaeth ac eidion i archwilio'r posibilrwydd o fabwysiadu systemau heb bori er mwyn lleihau allyriadau methan ac ocsid nitraidd i'r eithaf, ac i fanteisio ac botensial bio-nwy dan wasgedd". Rwyf o'r farn bod angen ymchwilio llawer ymhellach i ddatblygiadau o'r fath. Ond byddai technolegau i ddal allyriadau methan enterig gan wartheg a gedwir dan do yn golygu lleihad sylweddol yn allyriadau nwyon tŷ gwydr y diwydiant. Rwyf hefyd yn ymwybodol y bydd angen cynnal gwaith ymchwil a datblygu pellach i agweddau megis iechyd a lles anifeiliaid cyn y gall systemau o'r fath gael eu mabwysiadu'n eang a bydd angen ystyried barn cyrff megis Cyngor Lles Anifeiliaid Fferm.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol*

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn):** Pa gamau sy'n cael eu cymryd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i helpu pobl hŷn mewn ardaloedd gwledig ynysig i gael mynediad at dechnoleg TGCh ac i ddefnyddio'r dechnoleg honno. (WAQ56162)

***Rhoddwyd ateb ar 19 Gorffennaf 2010***

Ni ellir sicrhau bod band eang ar gael ym mhobman drwy ddefnyddio'r contract cyfredol â BT oherwydd cyfyngiadau technegol. Am y rheswm hwn, datblygwyd cynllun ategol i roi cymorth ariannol i unigolion, busnesau a sefydliadau'r trydydd sector na allant gael gafael ar wasanaeth band eang.

Gan ddefnyddio cyllid yr UE a chyllid craidd Llywodraeth y Cynulliad (cyfanswm o £2m), cyhoeddodd y Dirprwy Brif Weinidog yn ddiweddar (3ydd Gorffennaf) y byddai'r cynllun hwn yn cael ei gyflwyno. Anelir y cynllun at unigolion, cymunedau, BBaChau a sefydliadau'r Trydydd Sector mewn mannau gwan ar gyfer derbyn band eang. Bydd y rheini sy'n derbyn arian drwy'r cynllun yn gallu trafod â darparwyr gwasanaeth yn uniongyrchol. Bydd y cynllun yn darparu arian tuag at gostau sefydlu (neu gyfalaf), ond ni ellir ei ddefnyddio i dalu costau tanysgrifio misol.

Bydd cymorth ariannol o hyd at £1,000 ar gael; fodd bynnag, gall grwpiau o unigolion/busnesau cymwys gyfuno eu lwfansau er mwyn datrys y mater yn y gymuned lle y bo hynny'n fwy priodol. Cyhoeddir manylion ynglŷn â sut i wneud cais yn ddiweddarach y mis hwn.

Mae problemau i gael gafael ar wasanaeth band eang mewn rhai ardaloedd yn un o nifer o rwystrau a all atal dinasyddion rhag dewis defnyddio technoleg TGCh. Ymhlith rhesymau eraill mae diffyg sgiliau a hyder, agweddau negyddol at TGCh, diffyg arian neu ddiffyg cymorth priodol.

Drwy'r Fframwaith Cynhwysiant Digidol, sy'n blaenoriaethu pobl hŷn, a lansiwyd yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnig arweiniad strategol wrth fynd i'r afael ag allgáu digidol. Byddwn yn parhau i gydweithio'n agos â rhanddeiliaid, gan gynnwys sefydliadau a rhwydweithiau sy'n cynrychioli buddiannau pobl hŷn, i nodi a chyflawni dulliau creadigol o hybu pobl i fynd ar-lein drwy weithgareddau cymunedol megis ein menter cynhwysiant digidol ddiweddaraf, Cymunedau 2.0; defnyddio llyfrgelloedd, sy'n arbennig o boblogaidd ymhlith pobl hŷn, i fynd ar-lein; cyfleoedd dysgu drwy addysg a dysgu gydol oes a datblygu sgiliau; marchnata cymdeithasol a gwirfoddoli.

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn):** Pa gamau sy'n cael eu cymryd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu cyfleoedd dysgu i helpu pobl hŷn i feithrin sgiliau i ddefnyddio technoleg ddigidol yn effeithiol. (WAQ56163)

***Rhoddwyd ateb ar 19 Gorffennaf 2010***

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymrwymedig i wella ansawdd bywyd pobl hŷn drwy dechnolegau, drwy geisio sicrhau na chânt eu hynysu, ei gwneud yn fwy hwylus iddynt fyw'n annibynnol, sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus mwy effeithlon ac effeithiol ar gael ac fel defnyddwyr, drwy nwyddau a gwasanaethau rhatach.

Lansiais ein Fframwaith Cynhwysiant Digidol ar gyfer Cymru yn ddiweddar, a fydd yn destun ymgynghoriad ffurfiol, mewn cyfleuster cymunedol a ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn Ynys Môn, lle y cefais gyfle i weld pobl hŷn yn dysgu sgiliau TGCh. Mae'r ddogfen yn nodi pobl hŷn fel grŵp blaenoriaeth allweddol ac mae'n cynnig y dylid cydweithio'n agos â grwpiau pobl hŷn allweddol yng Nghymru i fynd i'r afael ag allgáu digidol.

Mae menter cynhwysiant digidol ddiweddaraf Llywodraeth Cynulliad Cymru, sef Cymunedau 2.0, yn cefnogi grwpiau cymunedol a rhai o'r sector gwirfoddol a mentrau cymdeithasol yn yr ardaloedd cydgyfeirio i fanteisio ar dechnolegau. Mae Cymunedau 2.0 yn blaenoriaethu cymorth i'r grwpiau yn y gymdeithas a gaiff eu hallgáu fwyaf, o ran technoleg ddigidol, gan gynnwys pobl hŷn, drwy eu helpu i oresgyn rhwystrau, magu hyder a chreu cyfleoedd iddynt ddefnyddio sgiliau newydd. Bydd Cymunedau 2.0 yn cydweithio'n agos â grwpiau pobl hŷn allweddol yng Nghymru i fynd i'r afael ag allgáu digidol ymhlith pobl hŷn drwy raglen i ddatblygu sgiliau a'u defnyddio.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnig arweiniad strategol i fynd i'r afael ag allgau digidol, ond dim ond drwy sicrhau ymdrech ar y cyd gan y sector breifat, y trydydd sector a'r sector cyhoeddus y gellir cyflawni cynhwysiant digidol. Byddwn yn parhau i gydweithio'n agos â rhanddeiliaid i nodi a chyflawni dulliau creadigol o hybu pobl i fynd ar-lein drwy weithgareddau cymunedol megis Cymunedau 2.0; defnyddio llyfrgelloedd, sy'n arbennig o boblogaidd ymhlith pobl hŷn, i fynd ar-lein; cyfleoedd dysgu drwy addysg a dysgu gydol oes a datblygu sgiliau; marchnata cymdeithasol a gwirfoddoli.